

Paratowch bortffolio (fel petaech yn ei rannu gyda mentor neu gyd-fyfyrwyr) sy'n cyfleu adfyfyrio beirniadol ar gynnydd a wnaed o ran cynllunio a gweithredu tair egwyddor addysgegol.

Enw: Ffion Margetson

Rhif Myfyriwr: 1600356

Llwybr: TAR Cynradd

Targedau o'r aseiniad blaenorol:

	Targed	Yr Hyn wyf wedi neud yn yr aseiniad yma
Targed 1	Gwneud defnydd pellach o ddeunyddiau yn ymwneud â datblygiadau cwricwlaidd a chanllawiau addysgol o Gymru wrth ymchwilio i destunau.	Teimlaf fy mod wedi gwneud gwell ddefnydd o ddeunyddiau yn ymwneud â Chymru yn ystod yr aseiniad hwn gan sicrhau fy mod yn cyfeirio at ddogfennau pwysig, pwrpasol, megis Fframweithiau'r Llywodraeth ynghyd ag adroddiad Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus'.
Targed 2	Plethu'r drafodaeth am yr achos critigol drwyddi draw, yn hytrach na thrafod yn gyffredinol heb amlygu pam fod hyn yn berthnasol i'r arsylwad.	Wrth ysgrifennu'r aseiniad hwn, cadwais mewn cof y targed yma, gan geisio plethu'r cynydd trwy gydol fy adlewyrchiad, lle'n briodol, wrth adlewyrchu yn feirniadol ar yr hyn a lwyddodd yn ystod PAP 1, a'r hyn efallai sydd angen mwy o waith er mwyn sicrhau cynnydd pellach.

Dolen i OneNote: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o:/g/personal/1600356_student_uwtsd_ac_uk/EIG6mB0Hwb5JoXqKJDneX3QBUeMht9EiqEJQQnllqpw7lQ?e=VxPYl0

Yn yr aseiniad yma fe fyddaf yn archwilio tair o ddeuddeg egwyddor Donaldson sy'n rhan hanfodol bwysig o'n cwricwlwm newydd. Yn ôl Donaldson mae 'addysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu' (Donaldson: 20015, t.67. Pwrpas yr asesu yma yn ôl William a Black (1998) yw addasu'r gweithgarwch addysgu a dysgu y maen nhw wedi ymwneud ag ef. Pwysleisia Asesu ar gyfer Dysgu'r angen am ffocws ehangach ar ddeall yr effaith y mae asesu'n ei chael ar ddysgu yn hytrach na

dim ond ystyried yr adborth ei hun, dylid ystyried ymatebion dysgwr i'r adborth, a'r modd y mae'r adborth yn cynorthwyo i symud dysgu yn ei flaen.

Rwy'n credu bod yr egwyddor nesaf yn eithaf hunan eglurhaol 'Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer' (Donaldson, 2015, t.67). Pe na baem yn ystyried yr egwyddor hon fel rhan o'r cwricwlwm newydd byddai yna rywbeth mawr o'i le. Mae'r egwyddor hon yn ymwneud ag ymestyn gwybodaeth ac ehangu gorwelion gan sicrhau bod gwersi'n ymestyn uwchlaw a thu hwnt i un pwnc yn unig. Ei ddiben yw sicrhau bod popeth yn cael ei gyd-lunio ar draws meysydd dysgu a phrofiad a bod y Fframwaith Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol dal yn chwarae rhan hanfodol bwysig yn addysg ein plant.

Y mae'r egwyddor olaf 'Mae addysgu a dysgu da yn golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol' (Donaldson, 2015, t.67) yn anoddach i ddiffinio gan eu bod yn gofyn am weithrediad sawl sgil. Y mae'r egwyddor hon yn gweithredu fel un hanfodol bwysig gan ei fod yn sicrhau bod athrawon nid yn unig yn cydnabod gwahanol fathau o ddysgwyr yn eu dosbarth ond yn ymateb i'w holl anghenion drwy sicrhau bod addysg yn hygyrch i bob gallu ac oedran ac nad yw un ffordd o ddysgu yn addas i bawb. Pwysleisia'r egwyddor hon dylem fod yn agored i lu o bosibiliadau newydd wrth symud ymlaen gyda chwricwlwm newydd Donaldson a

gwthio'n plant i lwyddo ym mha bynnag ffordd sy'n addas iddyn nhw.

Hunan - asesu

Pa mor hyderus yr ydych yn teimlo gyda ffracsiynau?			
			
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol) (10 - 15 munud)	Sesiwn <u>clig</u> - cyflwyno'r disgyblion i dabl 6. Mynd trwy sesiwn <u>clig</u> gyda'r plant - atgyfnerthu tabl 6 er mwyn sicrhau ddealltwriaeth fwy cadarn. <u>Helpu'r plant gyda'u gwaith lluosif gan wthio'r plant i fynd am yr her o 2 chilli, sicrhau bod pawb yn allu wrth fynd ati i luosi rhifau 2 digid. Torri'r cerbydau i lawr i'r plant.</u> $68 \times 7 = 476$ $60 \times 7 = 420$ $8 \times 7 = 56$	Disgyblion yn adrodd ac ysgrifennu tabl 6 <u>gan ddefnyddio amonw o strategaeth wahanol</u> . <u>Gan ymwys sawl 100 a theulu ffractiau.</u> Plant yn cael cyfle i <u>xmarfer eu sgiliau lluosif 2 digidid gan benderfynu dewis xmarfer 1 chilli neu i herio eu hunan gyda 2 chilli.</u>	<u>Burddau gwyn a pheniau ffr.</u> Cyfrifiadu'r - <u>sesiwn clig</u>
Addysgu a Dysgu Craidd (20 munud)	1) <u>Tafien hunan - asesu (arbenigeddau ffractiau)</u> 2) <u>Dechrau trwy esbonio i'r plant beth yw ffracsiwn o siâp gan ddefnyddio pizza.</u> Rhof pizza i bob par <u>er mwyn iddyn nhw allu gweld yn weledol y pizza cyfan.</u> Gofyn beth y'n wahanol am pizza. <u>Methu byoda pizza cyfan, torri mewn i ddarnau.</u> <u>Darnau hynny yn cynrychioli ffracsiynau.</u> Gweithio gyda ffracsiynau yn barod o ddwydd i ddwydd. <u>Acwain ymlaen at sut yr ydych yn ysgrifennu ffracsiwn.</u> Gofyn i blant ddod i fyny i'r burdd gwyn faint o'r pizza maen nhw'n meddwl v gallen nhw fwyta. <u>Pawb arall yn dangos v ffracsiwn gan ddefnyddio eu pizza - hynny e.e 7 darn allan x'i osod at yr ochr.</u> 3) <u>Gofyn i'r plant ddangos gwahanol ffracsiynau o'r pizza yn eu parau.</u> Symud ymlaen at wneud siâpau ac v burdd gwyn i sicrhau bod gan y plant ddealltwriaeth gadarn. 4) <u>Plant yn cwblhau tafien ffracsiynau i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ffracsiwn o siâp a sut i gofnodi ffracsiynau.</u> <u>Her - Plant yn ysgrifennu ffracsiynau i'r burdd gwyn i ddwydd.</u>	1) <u>Plant yn asesu pa mor hyderus v maen nhw yn xmarfer ffracsiynau sut cael ei cyflwyno i beth yw ffracsiwn.</u> 2) <u>Plant yn cael gweld yn weledol beth v mae ffracsiwn yn ymddangos fel.</u> Defnyddio pizza i gadarnhau'r ddealltwriaeth yn weledol. 3) <u>Mewn parau maent yn sud-wethio er mwyn dangos v gwahanol ffracsiynau.</u> Sicrhau bod ganddynt v ddealltwriaeth yn weledol sut mynd ymlaen i wneud tafien xmarferol. 4) <u>Plant i gwblhau'r daflen yn annibynnol (os yn bosib) i xmarfer v ffracsiynau.</u>	Tafien hunan - asesu Burdd gwyn v dosbarth Tafien ffracsiynau - sicrhau gwahanlaethu o fewn v dosbarth (2 daflen wedi ei pharatoi). Tafien Pizza

Dyma'r wers gyntaf erioed y dysgais i fy nosbarth blwyddyn 5, ac felly penderfynais gadw'r Asesu ar gyfer Dysgu (AagD - mewn coch) mor syml ag oedd yn bosib. Gan nad oeddwn yn siŵr o allu'r plant mewn unrhyw faes penodol o fewn mathemateg, penderfynais hunan-asesu'r plant gan ddefnyddio'r system 'emojis' er mwyn gweld pa mor hyderus yr oedden nhw'n teimlo wrth ymgymryd â gwers ar ffracsiynau am y tro cyntaf. Yn sicr yr oedd yr hunan-asesu yma yn hanfodol bwysig ac o fudd mawr i nid dim ond fi, ond hefyd y plant i gyd. Braf oedd gweld erbyn diwedd y wers bod nifer o'r plant wedi ail-ymweld a'u taflenni hunan-asesu personol ac wedi newid yr 'emoji' o fod yn anhapus iawn, a ddim yn deall y gwaith na'r maes o gwbl, i'r emoji hapus, gan gyfaddef eu bod nhw wedi magu hyder ac yn teimlo yn fwy cyfforddus wrth barhau gyda'r testun. I'r dyfodol efallai gallwn ofyn i'r plant ymhelaethu ar eu teimladau, gan ofyn pam nad ydyn nhw'n hapus, a beth y gallaf wneud fel athrawes i oresgyn y problemau a sicrhau bod y plant yn buddsoddi'n llawn yn fy ngwersi.

Cwestiynu

Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol) (5 munud)	Trowch i'r person drws nesaf i chi a thrafodwch bob dim yr ydych yn ei wybod am Langrannog. Meddwl paru rhannu - pawb i rannu syniadau ynghylch a beth y maent yn ei wybod a oes ydyn nhw yn edrych ymlaen at fynd i Langrannog yr wythnos ganlynol.	Plant yn trafod am 2 munud mewn paruau beth y maen nhw wybod yn barod am Langrannog ac yn yna adrodd yn ôl i'r dosbarth.	
Addysgu a Dysgu Craidd (20 – 30munud)	Darlifen y darn darllen ar Langrannog gyda'r plant gan ofyn i rai o'r plant i ddarlifen paragraffau. Wedi darllen gofyn a yw pawb wedi deall bod agwedd o'r darn darllen. Dangos y daflen cwestiynau i'r plant gan fynd dros bob cwestiwn gyda nhw. Sicrhau bod pob plentyn yn deall beth y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud cyn mynd ati i gwblhau'r dasg.	Cyd-ddarlifen y darn ar Langrannog, gan ystyried a ydyn nhw'n deall pob darn ohono. Ymweld ag unrhyw ddarnau nad yw'r plant yn hollol sicr ohoni cyn mynd dros y cwestiynau gyda nhw. Plant yn mynd ati i gwblhau'r cwestiynau ar y daflen gan fynegi eu barn ar y diwedd fel cwestiwn her.	Darn darllen Llangrannog Tafenni cwestiynau
Sesiwn Gloi (10 munud)	Gofyn y plant i ateb y cwestiynau er mwyn gwirio bod pawb ar dasg ac wedi deall beth i wneud. Gofyn i blant rhannu eu safbwyntiau ynghylch y cwestiwn olaf a sbarduno trafodaeth gyflyn os yn bosib - system y bel gira/pel fagedd	Plant i rannu beth sydd ganddynt fel atebion er mwyn gwirio bod pawb ar dasg. Plant yn cael y cyfle i rannu eu syniadau ynghylch pa mor bwysig y mae Llangrannog i Gymru'r yn eu tyb nhw.	

Yn y wers iaith uchod, gyda fy nosbarth blwyddyn 5, defnyddiais amrywiaeth o strategaethau AagD (mewn coch) er mwyn datblygu sgwrs ynghylch eu taith Llangrannog yr wythnos ganlynol. Bwriad y sgwrs oedd annog y plant i fynegi barn ac i asesu dealltwriaeth a gweld beth yr oedden nhw eisoes yn ei wybod am Langrannog. Defnyddiais y dechneg **'Meddwl, Paru, Rhannu'** yn fy sesiwn agoriadol gan agor trafodaeth eang am Langrannog. Yr oedd cyfle gan y plant i drafod gweithgareddau a llety, yn ogystal â beth yr oedden nhw'n disgwyl ymlaen at ei wneud fwyaf. Trwy ddefnyddio cwestiynau penagored yn y modd yma fe wnes i sicrhau fy mod yn gallu asesu eu dealltwriaeth a fy mod yn gall symud y disgyblion ymlaen yn eu dysgu, adnodd hynod o bwysig yn ôl Clarke (2001). Agorais drafodaeth ar ddiwedd y wers hefyd, gan gynnig cyfle i'r plant i rannu safbwyntiau am y cwestiwn olaf ar y daflen **'Yn eich barn chi, a yw Gwersyll Llangrannog yn bwysig i Gymru? Pam?'**.

Penderfynais agor y drafodaeth hon i bawb gan ddefnyddio'r system **'bêl-fagedd/ pêl-eira'** fel bod gan y plant gyfle i adeiladu ar atebion eu cyfoedion neu anghytuno yn llwyr a mynd a'r drafodaeth i dir newydd. Gwelais fod y ddwy strategaeth o gwestiynu wedi gweithio yn llwyddiannus, gan fod y plant yn gyffro i gyd ac am rannu safbwyntiau a meddyliau ynghylch eu taith i Langrannog. Yr oedd pawb yn ysu i gael ateb a rhannu beth yr oedden nhw'n disgwyl ymlaen ato'r fwyaf yn yr wythnos oedd i ddod, gan ddefnyddio technegau mynegi barn i ymarfer eu sgiliau llafaredd. Yr hyn byddwn i efallai yn ystyried ar gyfer y dyfodol yw fy strategaethau rheoli, gan fod pawb wedi cyffroi ac yn ysu i rannu yr oedd y dosbarth yn anhrefnus a swnllyd ar brydiau. Yr oeddwn yn falch bod pawb yn teimlo'n hyderus ac am gyfrannu i'r wers, ond yr oedd braidd yn anodd clywed beth oedd rhai yn dweud ar adegau gan fod pawb yn siarad dros ei gilydd. Dylwn sicrhau felly fy mod yn gosod safonau a disgwyliadau ynghylch sut yr hoffwn i'r disgyblion ymateb yn briodol, er mwyn galluogi bod pawb yn cael dweud eu dweud ond mewn ffordd benodol a pharchus.

Asesu Cyfoedion

Success Criteria	Self Assessment	Peer Assessment
		
Past tense – was, went, saw	✓	✓
Write in the first person (I, I've)	✓	✓
Important life events	✓	✓
Chronological Order	✓	✓

Bydd disgyblion yn dysgu i wneud y canlynol:

- Darllen enghraifft o hunangofiant
- Uwchleuo'r pethau pwysigaf yn ôl y MPLL
- Mynd ati i ddrafftio paragraff eu hunain yn cyfateb a'r MPLL.

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
• Ysgrifennu yn y gorffennol • Ysgrifennu yn y person cyntaf • Cynnwys digwyddiadau bywyd pwysig • Trefn gronolegol	• Hunan asesu • Asesu cyfoedion • Cwestiynu • System buddies

Addysgu a Dysgu Craidd (20 – 30munud)	Dangos enghraifft o baragraff cyntaf hunan gofiant Abraham Lincoln i'r plant. Gofyn i rai ohonynt nhw ddarllen brawdddegau'r un. Gofyn iddyn nhw beth y maen nhw'n credu sydd eisiau ystyried fel MPLL wedi iddyn nhw ddarllen y paragraff. Dangos y MPLL iddyn nhw ac yma gofyn iddyn nhw uwchleuo'r pwyntiau yn y paragraff i weld a yw Miss Margaretson wedi cynnwys y ffeithiau uchod i gyd ac wedi ateb gofynion y MPLL. Plant yn mynd ati wedyn i ddrafftio paragraffau eu hunain yn ystod y wers.	Plant yn cyd-ddarllen hunangofiant Abraham Lincoln gan ystyried MPLL wrth ddarllen. Plant yn cynnig syniadau am MPLL wedi darllen y paragraff a phethau y maen nhw'n credu sy'n briodol i'w cynnwys. Plant yn uwchleuo gyda phartner y prif ffeithiau yn fy MPLL gan weld a yw'r paragraff yn enghraifft dda o beth ddylai eu paragraff hwythau edrych. Rhoi rhyw hanner awr i'r plant mynd ati i ddechrau ysgrifennu paragraffau eu hunain gan ddefnyddio'r ffeithiau a gasglwyd.	Hunangofiant enghreifftiol MPLL
Sesiwn Glor (10 munud)	Gofyn i'r plant i hunan - asesu ei gwaith ac yn cyfnewid a phartner ac asesu cyfoedion i weld a ydyn nhw wedi llwyddo i gyrraedd y nod a chwbhau'r hyn sy'n ofynnol. Os es amser yn weddill hefyd gofyn i rai o'r plant rhannu enghreifftiau o'i gwaith gyda'r dosbarth.	Plant yn hunanasesu ac asesu cyfoedion yn onest er mwyn gweld a ydyn nhw wedi cyflawni'r nod ac ysgrifennu paragraff cyntaf llwyddiannus yn cyflwyno eu person Fictoriaidd enwog i ni.	Tafenni hunan – asesu/ asesu cyfoedion.

Yn y wers iaith uchod, gyda fy nosbarth blwyddyn 5, fe benderfynais ganolbwyntio ar y strategaeth AagD, Asesu Cyfoedion (mewn coch) er mwyn datblygu sgiliau gwerthuso a rhesymu fy mhiant. Penderfynais ddewis y dull hwn nid dim ond oherwydd ei fod yn gweddu yn berffaith gyda naws y dasg o ysgrifennu hunangofiant ar enwogion o'u dewis o'r Oes Fictoria, ond hefyd gan fod Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd asesu cyfoedion wrth nodi ei fod yn 'gofyn i'r dysgwyr fod yn weithredol yn eu dysgu a myfyrio ar eu lefelau dealltwriaeth' (LIC, 2010, t.27). Y mae'n ddull yn ôl nhw sy'n llywio addysg y dyfodol (LIC, 2010) gan sicrhau bod y plant yn cyrraedd eu llawn botensial gan weithio fel dysgwyr mentrus ac uchelgeisiol yn ôl Cwricwlwm newydd Donaldson. Yr oedd y modd yma o asesu wedi gweithio yn llwyddiannus, gyda'r plant yn rhannu syniadau ynghylch y dasg ar lafar ynghyd a chynnig gwelliannau i'w partner os nad oedden nhw wedi llwyddo i gwrdd â gofynion y Meini Prawf Llwyddiant (MPLL). Fe aeth

y plant i gyd ati i asesu mewn modd beirniadol gan drafod a'u cyfoedion a chynnig beirniadaeth adeiladol iddynt gyda gwelliannau at y dyfodol. I'r dyfodol, mae eisiau i mi sicrhau fy mod yn rhoi digon o amser i'r plant i gyd i orffen drafftio eu gwaith, fel bod gan bawb hunan-gofiant teilwng i farcio. Er bod nifer yn fy nosbarth wedi cwblhau'r dasg dan sylw, yr oedd y rhai hynny sy'n gweithio'n arafach ag â anghenion fwy dwys yn ei darganfod hi'n anodd cadw at derfyniadau amser. Dylwn sicrhau felly bod pawb yn glir â'r MPLL a bod y rhai hynny sydd angen mwy o gymorth ag atgyfnerthiad yn eu derbyn fel bod modd i bob disgybl cyflawni darn o waith o safon yn yr amser penodedig wrth ymateb i'r MPLL.

Gwahoddiad – Cymhwysedd digidol

Sunday, November 3, 2019 2:47 PM

Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy):


Bydd disgyblion yn dysgu i wneud y canlynol:

- Cwblhau'r tair gorsaf o fewn 3 prynhawn.
- Defnyddio sgiliau cymhwysedd digidol i greu gwahoddiad i'r amgueddfa fyw.
- Defnyddio sgiliau celf i greu Baubles ar gyfer y ffair Nadolig.
- Defnyddio eu sgiliau darllen a chymhwyso i wahaniaethu'r cyfoethog o'r tlawd yn ystod yr Oes Victoria.

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cywyliadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gymwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gymwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu thurflannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gymwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (lyth chwyliadau & dysgu blaenorol) (10 munud)	Exbono'r 3 gwahanol daig wrth y plant a sgrchau bod pawb yn deall beth sy'n cynnwys ohonynt ar bob gorsaf. 1) Creu Baubles ar gyfer y ffair Nadolig 2) Tasg cymhwysedd digidol – creu gwahoddiad ar gyfer yr amgueddfa fyw 3) Cymharu bywyd y cyfoethog a'r tlawd yn ystod yr Oes Victoria.	Plant yn dysgu beth ydy'r tair tasg dros y bridiau nesaf. Cyfle i blant ofyn cwestiynau, dangos diddordeb ynghyd beth y maen nhw'n mynd i fod yn cyflawni. Tasg i ennyn ac ymateb i diddordebau pawb yn y dosbarth – tasg greadigol, ddigidol ac ysgrifenedig fel bod pawb yn seimio yn rhan o'r gweithgaredd.	
Addysgu a Phrofi Craidd	Plant yn mynd ati i weithio trwy'r gwahanol gorffeydd dros 3 prynhawn gwahanol. 1) Creu baubles Nadoligaidd - plant yn mynd	Mewn grwpiau - i'w gadarnhau, plant yn symud o amgylch y cerddel. Grŵp tu allan yn cwblhau'r baubles naill ai o dan fy	Balwms Glitter Cordin


Addysgu a Dysgu Craidd (20 – 30munud)	Plant yn mynd ati i weithio trwy'r gwahanol gorffeydd dros 3 prynhawn gwahanol. 1) Creu baubles Nadoligaidd - plant yn mynd ati gan lapio cordin o amgylch balwm a'i throchi mewn glud PVA. Wedi hynny gorchuddio'r bauble gyda glitter gwahanol liwiau. 2) Plant yn mynd ati i greu gwahoddiad eu barnau i'r rhaiol gan ddefnyddio'r deunyddiau gwir i greu'r eu rhieni ar ddiwedd y tymor. Modelu anghraifft wrth y plant i'r exorthwedd i fudd ati i greu gwahoddiad. 3) Creu diagram VENN mawr fel grŵp gan gymharu beth sy'n debyg ac yn wahanol rhwng bywydau'r cyfoethog a thlawd yn ystod yr Oes Victoria. Wedi gwrio gyda ffenestr athrawes ddosbarth y plant yn mynd ati i gospi'r diagram yn ddaclus i'w lyfrau.	Mewn grwpiau - i'w gadarnhau, plant yn symud o amgylch y cerddel. Grŵp tu allan yn cwblhau'r baubles naill ai o dan fy arweiniad i ni arweiniad yr athrawes ddosbarth. Angen sgrchau bod pawb yn gwybod beth i wneud ac nid oes gormod o laenst yn cael ei chreu. Plant yn defnyddio eu taillau TGOH i gospiu'r gwahoddiad i'r rhieni. Defnyddio'r esampol ar mwyngwrdd eu bod nhw wedi cymwys pob dim yn y gwahoddiad. Sgrchau bod y gwahoddiad mor ddidiadol a gwybodus a phosib hys ddefnyddio gormod o eiriau na llyfrau. Diagram Venn wedi ei greu yn defnyddio'r wybodaeth a rhoddwyd i'r plant. Dweud wrth y plant ei fod yn bwysig i wrio os yr ydyn nhw'n gwrir gwybodaeth o'r cymund ati i'w gospi i'w lyfrau theme yn ddaclus.	Balwms Glitter Cordin Glud PVA Tafenni gwybodaeth Diagramau VENN Gliniaduron/ Chromebooks
--	--	--	---

Annwyl rhizni/ Dear Parents
Pwy: Hlofwn i Florence Nightingale zech gwahodd i'n hamgueddfa fyw .
Pryd: Ar y 18fed o Ragfyr 2019
Bl: Ysgol Sant Curig.
Who: I Florence Nightingale would like to invite you to our live waxworks museum
When: On the 18th of December 2019
Where: At Sant Curig.
Y mae'n addo i fod yn wledd, lle gwelw y plaser o gwrrd ag amryw o gymyriadau o'r Oes Victoria a chylwedd eu hangaion difyr a thrist.
It promises to be a spectacular event where you will have the opportunity to meet an array of wonderful characters from the Victoria Era and hear about their interesting and somewhat heartbreaking history.



Fe gwypodd y gweithgaredd yma o dan fy ngwers carwsél olaf, gyda'm dosbarth blwyddyn 5. Yr oedd y dosbarth i gyd yn ymwneud a thasgau gwahanol a oedd yn canolbwyntio ar wahanol sgiliau trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd a chelf. Serch hynny yr wyf wedi penderfynu canolbwyntio ar y gweithgaredd penodol hwn a oedd yn ffocysu ar ddatblygu sgiliau cymhwysedd digidol y plant wrth iddyn nhw fynd ati i greu gwahoddiad. Diffinnir y cysyniad o gymhwysedd digidol bellach fel ffordd amlochrog, symudol sy'n cwmpasu llawer o ardaloedd ac sy'n datblygu'n gyflym wrth i dechnoleg newydd ddod i'r amlwg (Ferrari, 2013). Yn anffodus nid oedd y gweithgaredd yma mor llwyddiannus ag yr oeddwn yn disgwyl. Er i mi ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i fy mhlant yn y dosbarth, nid oedd ganddynt y sgiliau TGCH sylfaenol i allu ymdopi heb gymorth wrth gyflawni'r dasg. Er bod nifer yn gwybod yn iawn sut i ddefnyddio technoleg, gan ein bod yn byw bellach mewn byd datblygedig, nid oedd y plant yn ymwybodol sut i wneud pethau sylfaenol ar PowerPoint gan nad oedd y sgiliau hanfodol ganddynt i gwblhau'r dasg. Yr oedd y sgiliau sylfaenol yma yn cynnwys newid ffont, maint ffont, lliw ffont ac ychwanegu siâp neu lun. Felly er bod y dasg i fod yn un annibynnol, yn anffodus yr oedd y plant mwy na lai yn llwyr ddibynnol ar fy nghymorth i. Yr hyn sydd eisiau i mi felly sicrhau yw bod gan bawb dealltwriaeth o dechnoleg ar lefel sylfaenol wrth ymgymryd â thasgau sy'n gofyn am ddefnyddio meddalwedd Microsoft. Peth arall allai gwneud yw cynnal sesiwn neu weithgaredd ar sut i ddefnyddio'r gwahanol meddalwedd gan gynnwys Word, PowerPoint, Excel a Publisher. Yn sicr wrth symud ymlaen y mae'n hanfodol bwysig bod gan y plant y sgiliau yma cyn bwrw ymlaen gyda thasgau TGCH neu gymhwysedd digidol yn y dyfodol.

Llinell amser - rhifedd



Er taw tasg hanes yr oedd y plant yn ymgymryd â hi fel rhan o'u gwersi thema, fe welwn fod sgiliau trawsgwricwlaidd yn gweddu yn berffaith gyda'r wers hon wrth i'r plant ymdrin â llinell amser. Atgyfnerthai Hoodless et al (2009) bwysigrwydd rôl y dyniaethau yn natblygiad unigolion yn drawsgwricwlaidd gan ddatgan bod y dyniaethau, heb os, yn faes creadigol sy'n gofyn am y gallu i ddatrys problemau ynghyd a defnyddio iaith a meddwl yn feirniadol. Dengys ymchwil bod cysylltiad mor agos rhwng dyniaethau a meddwl ei fod yn anwahanadwy. Triais feddwl am y ffordd orau y gallwn gyplysu rhifedd i mewn i'm gwersi thema ym mlwyddyn 5 ac wedi ystyried a phendroni am hir, fe benderfynais y bydd llinell amser yn ffordd berffaith o wneud. Yr oedd gofyn i'r plant i ddiolli'r dyfeisiadau Fictoraidd mewn i ddau gategori cyn 1901 ac wedi 1901. Llwyddodd y plant i wneud hyn heb fawr o drafferth, gan ymarfer eu sgiliau cyd-weithio llwyddo nhw i ddiolli'r dyfeisiadau ymhen pum munud. Er bod y plant heb gael fawr o drafferth yn cwblhau'r dasg hon, nid oedd hynny'n wir am y dasg a oedd yn dilyn. Yr oedd gofyn i'r plant drefnu'r dyfeisiadau yn ôl dyddiad gan ddechrau gyda'r papur ffotograff ym 1802 a pharhau hyd nes y tanc ym 1916. Fel y gwelwch o waith yr unigolyn uchod nid oedd pawb wedi llwyddo i wneud hyn heb drafferth. Yn anffodus gan nad oedd y lluniau a'r dyddiadau mewn trefn ac yr oedd yn rhaid i'r disgyblion grwpio'r data, yr oedd hyn y peri llawer o drafferth iddyn nhw, ac yr oedd angen cymorth ar nifer fawr ohonynt gen i. Wrth ymgymryd â thasg debyg yn y dyfodol, byddwn yn sicrhau bod y plant i gyd yn glir o ofynion y dasg ac efallai yn ei symleiddio fel nad oes dryswch a bod y dyfeisiadau yn y drefn gywir er mwyn sicrhau bod y dasg yn llwyddiant.

Coeden Deuluol – Llythrennedd a Rhifedd

Coeden deuluol y Frenhines Victoria

1. Roedd ei cieni yn tyweddged Victoria Mary Louisa of Saxe-Coburg Salfield a Tywysog Edward (Duke of Kent).

2. Roeddodd Victoria, Albert of Saxe-Coburg and Gotha (Prince consort).

3. Gannwyd - 24 Mai 1819.

4. Roedd Victoria 9 blant, 5 merch a 4 bechgyn.

5. Enw'r plant yn hynaf yw Victoria.

6. Enw'r blentyn ynyngaf yw Beatrice.

7. Roedd ei oedran yn 82 pryd naeth.

8. Roedd Leopold yn 31 pryd naeth a farw.

Isen oedd oedran y plant eraill?

Victoria 61
Edward VIII 69
Alice 35
Alfred
Helena
Louise
Arthur
Beatrice

Er bod y dasg hon o natur hanesyddol, wrth iddyn nhw archwilio hanes Coeden Deuluol y Frenhines Victoria, cafodd y plant gyfle i archwilio eu sgiliau iaith hefyd, wrth ymateb i gwestiynau mewn brawddegau llawn hyd eithaf eu gallu. Pwysleisia Cassell pwysigrwydd llythrennedd drwy ddatgan ei fod yn parhau i fod yn hollbwysig i lwyddiant drwy gydol oes - o ddechreuad addysg i gyflogaeth oedolion yn y dyfodol (Cassell, 2004), ac felly y mae'n hollbwysig ein bod yn ei dalu cymaint o sylw ag y bo modd ac yn ei weithredu lle y gallwn. Roedd y dasg yn gyffredinol yn llwyddiant, gyda'r rhan fwyaf o'm dosbarth blwyddyn 5 yn cwblhau'r wyth cwestiwn yn annibynnol ac yn gofyn am her werdd ar y diwedd. I'r rhai hynny a oedd angen ychydig mwy o anogaethau a chefnogaeth yr oeddwn i yno i'w gefnogi, ac felly fe gwblhaodd yr holl grŵp y cwestiynau i gyd yn yr amser a roddwyd. Penderfynais gyflwyno mwy o sgiliau trawsgwricwlaidd ar ddiwedd y wers gyda'r her werdd gan ofyn i'r plant gyfrifo oedran plant Victoria pan fuon nhw farw. Cyflwynodd hyn fathemateg i'r wers ac felly llwyddodd sicrhau bod ein gwers hanes nid dim ond yn gweithredu'r fframwaith llythrennedd hollbwysig ond hefyd yn ogystal ein fframwaith rhifedd. Atgyfnerthai'r Llywodraeth Gymreig pwysigrwydd y fframweithiau gan ddatgan eu bod yn galluogi i bobl ifanc cyflawni eu llawn botensial

ynghyd a sicrhau eu bod yn cyflawni eu nod i'r dyfodol (LIC, 2013). Er nad oedd yr her fathemateg ar ddiwedd y wers mor llwyddiannus â phrif gorff y dasg, rwy'n hapus fy mod wedi sicrhau bod y wers yn fwy trawsgwricwlaidd ac yn ymestyn y tu hwnt i un maes dysgu yn unig, rhywbeth y bydd yn rhaid i ni ddod i arfer ag ef wrth i ni weithredu'r cwricwlwm newydd. Yn y dyfodol, hoffwn sicrhau bod rhifedd a llythrennedd ar waith ac yn gweddu a'i gilydd ym mhrif gorff y dasg er mwyn i'r plant gael y cyfle i archwilio nifer o bosibiliadau gwahanol ynghyd ag ymarfer eu sgiliau sylfaenol a hanfodol wrth gwblhau'r dasg dan sylw ac nid fel her ar y diwedd yn unig.

Gwers Oes Fictoria



Addysgu a Dysgu Craidd (20 – 30munud)	Yn ystod y wers byddwn yn mynd ati i gwblhau amryw o dasgau gan gynnwys barddoniaeth, sillafu a mathemateg. Bydd gofyn i'r plant gwblhau gwers mathemateg gan adalw eu tablau amrywiol gan gynnwys tabl 6, 8 a 9. Bydd y plant hefyd yn darllen cerdd a byddaf yn pigo ar rhai unigolion i sefyll a sillafu vchydig o'r geiriau ar lafar o flaen y dosbarth. Wedi hyn bydd y plant yn mynd ati i gopio eu cerddi mewn i'w llyfrau tro ar ol tro tan fod y wers yn gorffen.	Plant yn mynd ati i adrodd eu tablau ar lafar dro ar ôl tro - os yw plant yn gwneud camgymeriad maent yn cael ei gosbi o flaen yr holl ddosbarth. Derbynn chwio gan y gansen, dewis os taw ar eu pen ôl neu law maen nhw am gael y chwio. Plant yn cyd-ddarllen y gerdd ac yn barod i ateb cwestiynau pan rwyf yn gofyn iddyn nhw sillafu gwahanol eiriau - eto os maent yn cael y cwestiynau yn anghywir maent yn derbyn cost y gansen. Wedi hyn bydd y plant yn mynd ati i gopi'r gerdd mewn i'w llyfrau tr oar ol tro - wrth wneud hyn dylai fod pawb yn dawel, dim sŵn yn y dosbarth, tawelwch. Unrhyw un nad sy'n cydymffurfio a gofynion y wers yn cael cost y gansen.
---	---	---


Yr oedd y wers Oes Fictoria yn un newydd i mi, ond yr oedd yn bleser i gael ei chynnal hi. Y mae gen i radd mewn drama ac felly braf oedd cyplysu dwy beth yr wyf yn ei garu yn ystod y wers yma. Er nad oedd thema o reidrwydd i'r wers yr oedd yn cyd-fynd a thema'r tymor yn fy nosbarth blwyddyn 5, sef golau a thywyllwch. Rhedodd y wers yn eithaf llyfn, yr oeddwn am geisio gweddu mewn i'r wers beth oedd y plant wedi bod yn astudio dros yr wythnosau diwethaf ac felly fe ail-ymwelon ni gyda thablau. Yr oedd yr atgyfnerthiad yma o fudd i'r plant yn ystod y wers ond hefyd yn gweddu yn berffaith gyda'r wers ac yn cynnal y naws Fictoraidd, wrth i'r plant gofnodi atebion ar eu byrddau du. Yr oedd y wers yn sicr yn llwyddiant ac yn un byddwn bendant yn ail-wneud os godith y cyfle yn y dyfodol. Er na rhedodd hi yn union yn ôl y cynllun, gyda fi'n addasu wrth i ni fynd yn ein blaenau, yr oedd pawb wedi mwynhau ac o adborth llafar gan y dosbarth ar ddiwedd y wers, y mae'n edrych fel bod pawb yn ysu am fwy o wersi Fictoraidd yn y dyfodol.

Gwers Fathemateg - Pizza

[illegible]

Yn ystod fy wythnos gyntaf gyda'm dosbarth blwyddyn 5, yr oeddwn yn gyfrifol am y gwersi Mathemateg i gyd a fy nhestun oedd Ffracsiynau. Gan fy mod yn ymwybodol bod gen i ddosbarth o allu isel yr oeddwn i am sicrhau fy mod yn cyflwyno'r testun mewn modd creadigol a bydd yn annog y plant i eisiau gweithio a chyflawni gwaith o'r safon gorau phosib. Fe benderfynais ddefnyddio Pizza felly er mwyn cyflwyno'r thema i'r plant er mwyn ceisio cychwyn y gwaith ar lefel y bydden nhw'n eu deall ac yn gallu uniaethu gyda. Yn sicr, o fy mhrofiad llaw gyntaf i, fe weithiodd y Pizza, gan ei fod yn hybu sgiliau creadigol y plant trwy ymgysylltu â bywyd bod dydd, ond hefyd yr oedd yn rhywbeth gweledol, rhywbeth yr oedd y plant yn gallu ymgymryd â, ac yn wahanol iawn i'r arfer o ddefnyddio dim ond pen a phapur a thaflenni gwaith. Yn ogystal yr oedd yn galluogi'r plant i fynd ati i ddatrys problemau yn annibynnol ac i fagu eu hyder wrth iddyn nhw gydweithio . Gan fod y pizza gyda nhw wrth law, nid oedd yn rhaid iddyn nhw dibynnu cymaint arna i fel athrawes, ond yn gallu mynd ati gan ddefnyddio menter eu hun i ateb y cwestiynau a gwirio dealltwriaeth. Atgyfnertha hwn gan Lee a Pound (2010) wrth iddyn nhw ddweud, drwy osod mathemateg yng nghyd-destun meysydd eraill o ddysgu, caiff dealltwriaeth plant ei chyfoethogi, ei herio a'i gadarnhau. Yn yr un modd ag y mae siarad am fathemateg yn fwy heriol na dim ond clywed amdani felly mae cymhwyso mathemateg mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn sicrhau bod dealltwriaeth yn ddwysach a bod gwybodaeth yn cael ei gwneud yn fwy eglur.

Carwsél – Tlawd vs Cyfoethog



Daw'r dasg uchod eto o un o'm gwersi thema a thasg carwsél, lle'r oedd gofyn i'm disgyblion blwyddyn 5, grwpio dywediadau yn ôl os oedden nhw'n gyfoethog neu'n dlawd. Yn sicr yr oedd hyn wedi cyplysu eu sgiliau datrys problemau a'u sgiliau meddwl mewn modd beirniadol wrth iddyn nhw gyd-weithio mewn paru a grwpiau bychain er mwyn gwahaniaethu'r wybodaeth mewn i ddau categori. Yr oedd y dasg yma yn eithaf llwyddiannus, yr oeddwn i'n gweithio gyda'r grŵp ffocws hwn yn ystod y wers ac yno fel cymorth ychwanegol os nad oedden nhw'n sicr o'r wybodaeth a rhoddwyd. Gan ddweud hynny weithio rhan fwyaf o'r disgyblion yn annibynnol gan gwblhau gwaith o safon uchel iawn. Yr oedd eraill angen ychydig o anogaeth ychwanegol i gadw ar dasg, gan oedd ei sylw yn cael ei ddenu gan gyfoedion yn hawdd. Wrth ymgymryd â'r dasg yma yn y dyfodol, byddaf yn sicr yn meddwl am ffordd fwy creadigol o gadw'r plant ar dasg ac yn lle gofyn i'r plant gopi nodiadau i'w llyfrau efallai gallan nhw greu fideo neu boster i ddangos y gwahaniaethu rhwng y tlawd a'r cyfoethog. Wrth wneud hwn nid yn unig byddwn yn ymarfer sgiliau cymhwysedd digidol y plant ond hefyd yn hybu'r tair sgil holl bwysig. Y mae'r sgiliau yma yn hanfodol o fewn y cwricwlwm newydd a heb os, yn annog disgyblion mentrus, uchelgeisiol a chreadigol sy'n gyfranwyr teilwng i'r gymdeithas o'u cwrpas.

Mae addysgu a dysgu da yn golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu.

Wrth fynd ati i gynllunio gwersi ar gyfer fy Mhrofiad Addysgu Proffesiynol (PAP) rhan 1, roedd yr elfen o Asesu ar Gyfer Dysgu (AagD) - rhywbeth yn ôl Bowen ac Ellis (2009) sy'n meithrin yr ymdeimlad o wneud camgymeriadau a chymryd risg, yn peri pryder i mi gan nad oeddwn wirioneddol yn adnabod fy nysgwyr, eu cryfderau a'u gwendidau. Yr oeddwn yn ymwybodol bod gen i ddosbarth gwan, yn enwedig o fewn Mathemateg, ond nid oeddwn yn siŵr lle i ddechrau gyda'r asesu, gan nad oeddwn yn ymwybodol o'u dealltwriaeth bynciol. Pwysleisia Ridgway et al (2004) pwysigrwydd asesu gan ddatgan ei fod yn rhan hanfodol o ymarfer addysgegol ac yn ddimensiwn craidd wrth lunio arfer ystafell ddosbarth da a diffinio'r cwricwlwm. Yr oedd hyn yn hynod o bwysig wrth ystyried fy arfer fel athrawes, nid oeddwn yn gyfarwydd gyda'r dosbarth ac felly ddim yn ymwybodol ar ba lefel yr oedden nhw'n gweithio. Yr oedd yn hanfodol felly fy mod yn darganfod lefel dealltwriaeth y plant cyn mynd ati i ddechrau'r wers fel fy mod yn gallu cychwyn ar eu lefel sylfaenol nhw ac adeiladu a datblygu eu dealltwriaeth. Ein nod gyda'r Cwricwlwm newydd yw sicrhau bod y disgyblion yn rhai Donaldsonaidd (2015), yn fentrus ac unigolion sy'n gwithio'r ffiniau, ond ni allwn sicrhau hynny oni bai bod gan y plant dealltwriaeth gadarn a sylfaenol o'r maes dan sylw yn y lle cyntaf.

Wrth edrych yn ôl efallai y dylwn fod wedi defnyddio mwy o'm menter fy hun ac edrych ar waith o fewn eu llyfrau er mwyn canfod ar ba lefel yr oedd gwahanol

unigolion yn gweithio, er mwyn fy nghynorthwyo wrth symud ymlaen a'm cynllunio a'r elfen o asesu. Gallwn hefyd fod wedi siarad mwy â'm hathro dosbarth, a gofyn, beth yn ei barn hi fyddai'r ffordd orau i asesu dealltwriaeth yn ystod yr wythnos gyntaf.

Dylwn fod wedi sicrhau fy mod yn pennu'r 'single most important factor'

(Ausubel, 1968) sy'n dylanwadu ar yr hyn y mae'r dysgwr yn ei wybod eisoes ac o ganlyniad eu haddysgu yn unol â hynny.

Nid oeddwn yn hyderus i ddefnyddio'r strategaethau asesu ar ddechrau'r lleoliad gan nad oedd gen i brofiad o ddysgu, heb son am weithredu AagD i mewn i'm gwersi.

Nid oeddwn yn siŵr pa ddulliau y dylwn i fod yn ei defnyddio na chwaith beth oedd y disgwyliadau. Sicrheais felly fy mod yn ymgysylltu â'r plant ar lefel sylfaenol yn y wers gyntaf, gan ddefnyddio'r system 'emojis' wrth hunanasesu (gweler atodiad hunanasesu) er mwyn dynodi beth oedd eu dealltwriaeth gychwynnol, gan asesu a oedden nhw'n mynd i ymdopi gyda'r swp gwaith yr oeddwn eisoes wedi'i pharatoi iddynt neu a oedd rhaid i mi ail-gynllunio gwaith haws a fydd yn cael mwy o effaith yn yr hirdymor. Adleisia Sadler (1989) bwysigrwydd hunanasesu wrth gydnabod bod ymwybyddiaeth dysgwyr o addysgu a'u gallu i gyfarwyddo eu hunain yn gynyddol bwysig yng nghyd-destun annog dysgu gydol oes. Byddai Bowen ac Ellis (2009) yntau yn dadlau bod asesu ar gyfer dysgu yn bwysig iawn ac yn blaenoriaethu'r defnydd ohoni drwy nodi ei fod yn helpu disgyblion i benderfynu sut y gallant wella eu dysgu eu hunain. Pwysleisian nhw ei fod yn ddull sy'n galluogi disgyblion i fesur rheolaeth yn eu dysgu eu hunain, ac un o'u dadleuon canolog yw y dylai asesu

ganolbwyntio ar y gwaith, nid ar yr unigolyn.

Yr oedd y strategaeth hon hefyd yn gorgyffwrdd ag un o egwyddorion arall

Donaldson (2015) sef 'gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol'. Roedden ni fel dysgwyr cyfunol yn mynd i adeiladu ar brofiad gyda'n gilydd a sicrhau bod pob unigolyn yn cyrraedd eu llawn botensial.

Noda Alexandra (2006) bod asesu cyfoedion yn golygu mwy nag asesu gwaith cyddisgyblion yn unig, ond yn hytrach ymwneud â deialog am ddysgu. Teimlaf er bod y plant wedi cael profiad o hyn yn ystod rhai gwersi (atodiad asesu-cyfoedion) ni wnaethom archwilio'r strategaeth yn ddigon trylwyr, ac yn sicr yr oedd yna le am ddatblygiadau pellach, yn enwedig o fewn tasgau ysgrifenedig megis Llythyr Llangrannog. Er fy mod wedi galluogi i'r plant ymarfer eu sgiliau asesu-cyfoedion, gan ddilyn MPLL, yn y dyfodol efallai y bydd yn syniad i adael i'r plant asesu cyfoedion gan fynegi barn a chynnig gwelliannau eu hun, yn hytrach na dilyn fformat penodedig. Trwy wneud mwy o asesu cyfoedion, dysga'r disgyblion sut i arfarnu nid yn unig ansawdd gwaith eu cyd-ddisgyblion, ond hefyd ansawdd gwaith eu hunain yn well (Jones, 2010) gan weithredu a gweithio tuag at gwricwlwm newydd Donaldson (2015) sy'n hyrwyddo disgyblion mentrus ac uchelgeisiol.

Dylwn efallai edrych ar gwestiynu sy'n gofyn am ddadansoddi, synthesis neu werthuso yn y dyfodol hefyd, oherwydd ystyrir yn fwy heriol a beichus na'r rhai sydd gofyn am ddealltwriaeth yn unig (McGregor, 2007.) Er fy mod wedi gwneud defnydd

o gwestiynu yn ystod gwersi (gweler atodiad cwestiynu) i sbarduno trafodaethau, nid wyf wedi ei ddefnyddio i gynorthwyo dealltwriaeth a meddwl beirniadol y plant digon er mwyn symud dysgu yn ei flaen. Gan amlaf, defnyddiais gwestiynu fel teclyn ar ddechrau fy ngwersi i atgyfnerthu gwybodaeth flaenorol neu i asesu dealltwriaeth o'r testun ar ddiwedd gwrs. Serch hynny, wrth i'r profiad mynd yn ei flaen dechreuais arbrofi â chwestiynu yn fwy yng nghorff fy ngwersi, gan ddefnyddio cwestiynau agored a chwestiynau a oedd yn sbarduno meddwl yn fwy beirniadol/ mynegi barn, fel y gall disgyblion ddod yn fwy annibynnol a monitro eu datblygiad yn ddeallus (Clarke, 2001).

Wrth i mi fagu hyder yn ystod fy mhrofiad dechreuais ddefnyddio asesu mewn modd mwy naturiol gan ei weithredu pa fo angen mewn gwersi yn hytrach na dilyn fy nghynlluniau, gan asesu gofynion y wers. Pe bawn i'n gweld bod y plant wedi diflasu, byddwn yn cyflwyno cwis yng nghanol y wers e.e. yn fy ngwersi Mathemateg, yn enwedig os oeddem yn astudio pwnc anoddach, er enghraifft ffracsiynau yn ystod yr wythnos gyntaf, byddwn yn aml yn newid cynlluniau fy ngwersi i weddu a hyrwyddo dealltwriaeth fy mhlant. Nid oedd hyn yn beth drwg gan fy mod yn defnyddio menter fy hun ac yn addasu a thalu sylw i anghenion fy mhlant, yn wir adleisia'r nodiadau yn fy nyddlyfr hwn gyda'm mentor yn fy nghanmol am fy nefnydd naturiol o'r strategaethau AagD gan atgyfnerthu'r datblygiad a chynnydd personol a wnaed fel darpar athrawes.

Mae asesu ar gyfer dysgu yn sicrhau lluo o gyfleoedd i'w dysgwyr, gyda'r brif

flaenoriaeth o hyrwyddo dysgu disgyblion yn ganolog. Ar gyfer PAP rhan 2, rwyf wedi sylweddoli bod angen i mi barhau i weithredu'r holl bethau rwyf wedi'u dysgu'n flaenorol, yn y brifysgol, o arsylwi yn y dosbarth ac o brofiad llaw gyntaf fy hun, er mwyn sicrhau fy mod yn rhoi'r profiad dysgu gorau posibl i'm disgyblion. Byddaf yn gwneud gwell defnydd o gwestiynu ac asesu cyfoedion er mwyn sicrhau fy mod yn meithrin meddwl beirniadol disgyblion ymhellach a'u symud ymlaen yn eu dysgu fel y gallant wneud eu gorau glas ar bob achlysur.

Drwy addysgu a dysgu da bydd y Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer.

Wrth ddechrau PAP 1 yr oedd yr agwedd o gynrychiolaeth drawsgwricwlaidd yn rhywbeth a oedd yn achosi trafferth i mi, gan nad oeddwn yn siŵr pa wersi yr oeddwn yn mynd i fod yn ymgymryd â, na chwaith sut yr oeddwn yn mynd i sicrhau bod y gwersi yn drawsgwricwlaidd, gan nad oeddwn yn gyfarwydd â'r fframweithiau i gyd fel darpar athrawes newydd. Noda Lawton (1997, t85) bwysigrwydd cyfrifoldebau drawsgwricwlaidd gan ddatgan:

'subjects may be useful up to a point, but more pressing problems are not conveniently packaged within a single subject, so there is a need to move beyond subjects'.

Yn sicr mae'r cysyniad yn dod yn fwyfwy pwysig gyda chyflwyniad y cwricwlwm newydd a'r syniad o ddysgu ac addysgu yn ymestyn ar draws meysydd dysgu a phrofiad, gan fod ymchwil yn awgrymu bellach bod plant yn dysgu mewn modd holistaidd. Yn ôl Armstrong a Fukami (2009) mae dysgu holistaidd yn broses nad sy'n cynnwys gwybyddiaeth yn unig ond hefyd gweithrediad integredig y person cyfan - meddwl, teimlo, canfod ac ymddwyn. Byddai Rose (2009) yntau yn cytuno â Lawton, ac yn hyrwyddo cynrychiolaeth drawsgwricwlaidd ar y sail mai dyma sut mae disgyblion yn eu dysgu orau a hefyd y mae'n cynnig y cyfleoedd gorau, ac yn

sicrhau cwricwlwm cynhwysol sy'n hygyrch i bawb.

Ar ddechrau'r lleoliad gwelais fod yr egwyddor hon anoddaf gan fy mod dim ond yn dysgu'r pynciau craidd/pur. Yr oeddwn felly yn ei darganfod hi'n anodd gweithredu'r gynrychiolaeth drawsgwricwlaidd o lythrennedd a chymhwysedd digidol gan fod y plant yn gweld y gwaith yn ddigon heriol fel yr oedd hi o fewn fy ngwersi

Mathemateg. Fodd bynnag wrth i'r profiad mynd yn ei flaen, cododd y cyfle i mi feithrin y sgiliau trawsgwricwlaidd yma ar sawl achlysur, fel y'i nodir yn enghraifft y gwahoddiad (gweler atodiad y gwahoddiad - cymhwysedd digidol), lle cafodd y plant y cyfle i ymarfer eu sgiliau cymhwysedd digidol. Yn ôl Ferrari (2013) mae bod yn gymwys ddigidol yn golygu eich bod nid dim ond deall y cyfryngau ond hefyd yr ydych yn gallu cynhyrchu gwybodaeth, ymgymryd ag agweddau beirniadol tuag at wybodaeth a hefyd eich bod yn gallu cyfathrebu trwy ddefnyddio amrywiaeth o offer a chymwysiadau digidol. Serch hynny, yn anffodus, gan nad oedd gan y plant y sgiliau sylfaenol, angenrheidiol i gwblhau'r dasg hon e.e. newid maint/lliw ffont, yr oedd angen ymyrraeth ac anogaeth barhaus ar y plant i fynd ati i gwblhau'r dasg dan sylw. Er nad oedd hyn o reidrwydd yn broblem, yr oedd wedi gwrthdynnu fy sylw oddi ar y dasg yr oeddwn i fod yn arsylwi a chynorthwyo gyda.

Yn sicr yr oedd y gweithgaredd yma wedi curo fy hyder wrth ymwneud a thasgau cymhwysedd digidol pellach ac yr oeddwn yn amharod a phryderus wrth ymwneud a gwersi technolegol am weddill PAP rhan 1. Sylweddolais y dylwn fod wedi asesu sgiliau'r plant yn flaenorol fel fy mod yn gallu cynllunio'n briodol ar gyfer y wers, fodd

bynag, cymerais yn ganiataol, oherwydd y byd datblygedig yr ydym yn byw ynddi, fod gan y plant y gallu TGCH sylfaenol ac yn medru cyflawni'r hyn a oedd yn ofynnol.

Wrth i'r profiad parhau, gwelais fod cyfle gen i, i gydbblethu mwy nag un cyfrifoldeb drawsgwricwlaidd o fewn fy ngwersi ac ymestyn ar draws mwy nag un maes dysgu a phrofiad. Yn fy ngwers carwsél ar yr Oes Fictoria (gweler atodiad y Goeden Deuluol) llwyddais i gydbblethu llythrennedd a rhifedd i mewn i'r dasg hanesyddol gan ofyn i'r plant 'dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testun' (LIC, 2016, t.2) wrth iddyn nhw ymarfer a chymhwyso eu sgiliau darllen wrth ateb cwestiynau ar Fictoria a'i theulu. Ynghyd a 'throsglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd' (LIC, 2018, t.2) wrth iddyn nhw gyfrifo oedrannau plant Fictoria pan fu fuon nhw marw fel her werdd ychwanegol ar ddiwedd y gweithgaredd. Yn ôl Kerry (2010, t.71)

'The learning is already being presented as a coherent package and children are using and developing knowledge, skills and understanding that are necessary for the topic being studied but not in the isolation within subject areas.'

Galluoga'r dull hwn y cyfleoedd i'r plant cymhwyso'r sgilliau newydd y maen nhw wedi eu caffael lle bod angen, a sicrhau bod y disgyblion yn gweithio tuag at fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n ddysgwyr uchelgeisiol a galluog (Donaldson, 2015).

Trwy gwblhau'r wers drawsgwricwlaidd hon yn llwyddiannus, sylweddolais mai atgof

pell oedd fy mhryderon blaenorol a'i bod yn bosib sicrhau fy mod yn gweithredu cynrychiolaeth drawsgwricwlaidd a hynny mewn ffordd greadigol a difyr. Er methiant oedd fy ngwers cymhwysedd digidol, llwyddais i adfer hwn wrth i'r profiad mynd yn ei flaen gyda'r wers hon yn gweithredu mwy nag un cyfrifoldeb drawsgwricwlaidd.

Credaf yn sicr bod y gweithgaredd Goeden Deuluol wedi dangos fy arfer dda fel

athrawes wrth i mi arbrofi yn fwy gyda fy ngwersi wrth i'm hunanhyder a'm

hunangred gynyddu. Byddwn felly yn parhau i adleisio cred Dewey (1902) yn y

dyfodol ac ymdrechu i sicrhau nad oes gwrthwynebiad rhwng 'pwnc' a 'phlentynt' fel

ffocws ar gyfer y cwricwlwm, ond yn hytrach eu bod yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd er

mwyn llwyddiant y cwricwlwm yn yr ystyr addysgegol.

Wrth symud ymlaen at PAP rhan 2, byddaf yn bendant yn edrych i ymgysylltu mwy â

gwersi trawsgwricwlaidd. Sylweddolaf bellach, wedi ymwneud â phrofiad llaw gyntaf

addysgu, nad yw cyfrifoldebau drawsgwricwlaidd yn rhywbeth y dylai peri pryder,

ond yn rhywbeth y dylem anelu ato ar y cyd wrth weithio tuag at ein Cwricwlwm

newydd. Nid yw'n unig yn sicrhau bod ein plant yn ddysgwyr cyfannol, ond y mae'n

gosod heriau newydd sy'n ehangu eu gwybodaeth a'u gorwelion ac yn cymhwyso a

chyfuno sgiliau newydd. Byddaf felly yn gweithio tuag at sicrhau bod fy ngwersi, lle'n

bosib, yn hyrwyddo cyfrifoldebau drawsgwricwlaidd, trwy gynllunio gweithgareddau

sy'n gweithredu o leiaf un o'r cyfrifoldebau (Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd

digidol) yn y tasgau a osodaf.

Mae addysgu a dysgu da yn golygu defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n hybu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol.

Fel darpar athrawes sydd â gradd yn Nrama, dyma'r egwyddor a atynnodd fy sylw fwyaf, yr un yr oeddwn yn gyffrous yn ei gylch wrth ddechrau PAP 1. Gan ddweud hynny, wedi darganfod fe fyddaf yn dysgu Mathemateg trwy gydol yr wythnos gyntaf, trodd y cyffro yn bryder, yn enwedig pan gyfaddefodd yr athrawes mai ffracsiynau y byddwn yn eu haddysgu (gweler atodiad gwers Fathemateg - Pizza).

Cymhara Worthington a Carruthers (2006, t.222) ymdrechion plant ifanc i ddysgu mathemateg i unigolyn sy'n ceisio dysgu iaith newydd, gan awgrymu bod eisiau i blant ddod yn llawer mwy na dim ond 'adders and dividers'. Cyfoethoga Lee a Pound (2010, t.2) hwn gan ddatgan bod datrys problemau yn 'vital part of human endeavour at many levels'. Serch hynny, gan nad oeddwn yn teimlo bod gennyf y gallu na'r deallusrwydd i gynllunio gwers lwyddiannus gan weithredu'r pethau uchod, fe benderfynais droi at Dacsonomeg Bloom (Anderson & Krathwohl, 2001) ar gyfer ysbrydoliaeth ar gyfer fy ngwersi er mwyn sicrhau fy mod yn rhoi'r gwahanol sgiliau y bydd y plant yn eu hennill ar waith.

Dechreuais â Dealltwriaeth (Anderson & Krathwohl, 2001), gan egluro ffracsiynau ar y lefel isaf i'r plant gan ddefnyddio pizza fel bod modd iddynt uniaethu. Yr oedd y pizza yn sicrhau nad oedd yn rhaid i'r plant defnyddio eu dychmygu ac hefyd yn cynnig cyfle iddyn nhw ei weld a'i gyffwrdd gan ddatrys y broblem wrth law ar sail

profiad llaw gyntaf. Gan wneud hyn yr oeddwn yntau yn ymgysylltu â phob math o ddysgwyr yn fy nosbarth ac yn sicrhau bod pawb yn cyflawni a chyrraedd eu llawn botensial.

Yn dilyn hyn, cymhwyson ni ddealltwriaeth y plant wrth iddyn nhw ddatrys problemau syml mewn parau ac yn unigol gan ddefnyddio'r syniad o pizza fel sbardun. Y cam olaf o Dacsonmeg Bloom y defnyddion ni oedd gwerthuso, gan ystyried a wnaed unrhyw gynnydd yn ystod y wers, a oedd y plant nawr yn teimlo yn fwy hyderus wrth ymdrin â ffracsiynau?

Y mae'n rhaid cyfaddef er fy mod yn pryderi am yr elfen o ddatrys problemau, o fewn y gwersi Mathemateg ac fel yr oeddwn yn mynd i drosglwyddo gwrs lwyddiannus i'r plant, llwyddodd Tacsonmeg Bloom, ynghyd a pharodrwydd y plant i gymryd rhan ac i gyflawni'r hyn a oedd yn ofynnol, i oresgyn hyn. Yn bendant yr oedd y wers yn llwyddiant mawr ac o fudd i'r plant, gyda nhw'n galw'r pizza i gof dro ar ôl tro yn ystod yn yr wythnos wrth i ni adeiladu ar ddealltwriaeth a phrofiad (Donaldson, 2015) fel dosbarth a sicrhau bod y plant yn ddisgyblion uchelgeisiol, mentrus ac yn eu galluogi i ymdrechu i wneud y gorau po gallent drwy'r adeg.

Wrth i'r lleoliad ddatblygu, sylweddolais fy mod yn gweithredu'r egwyddor yn fwyfwy naturiol i mewn i'm gwersi e.e. fel y'i nodir yng ngweithgaredd tlawd vs cyfoethog fel rhan o'm wers carwsél (gweler atodiad tlawd vs cyfoethog), pan ofynnais i'r plant ddioli gwybodaeth yn ôl bywydau'r bobl dlawd neu gyfoethog, gan ymarfer eu

sgiliau datrys problemau ynghyd a'u sgiliau meddwl yn feirniadol. Pwysleisia McGregor (2007) bwysigrwydd ymarfer y grefft o feddwl yn feirniadol gan ddweud gellid ei ddiffinio fel y broses wybyddol y mae gwybodaeth (o natur weledol, arogleuol neu glywedol) neu ddata o unrhyw fath, (y gellir ei chasglu drwy ganfyddiad synhwyraidd) yn cael ei thrawsnewid neu ei gweithredu'n feddyliol mewn ffordd bwrpasol. Y mae'n ddadansoddiad, proses neu drawsnewidiad o wybodaeth, data neu syniadau penodol.

Yn ystod fy wythnos gyntaf a'm dosbarth blwyddyn 5, cefais fy nghyflwyno i'r thema golau a thywyllwch. Er yr Oes Fictoria yr oedd y plant yn archwilio fel rhan o'r thema fe ddaeth i'r amlwg wrth rannu syniadau yn ystod yr wythnos gyntaf fod y plant am fynd ar drywydd mwy creadigol gyda'r astudiaeth gan gynnwys cynnal 'Bake- Off Fictoriaidd', amgueddfa fyw o'r cymeriadau o'r cyfnod, ynghyd a chael gwerau Oes Fictoria a chael profiad llaw gyntaf o fod mewn dosbarth o'r cyfnod a chael blas o'u cwricwlwm. Er trafodwyd hwn yn ystod yr wythnos gyntaf, ni chefais y cyfle i ddysgu'r wers Oes Fictoria a defnyddio fy sgiliau drama tan wythnos olaf fy mhrofiad. Rwy'n credu, heb os nac oni bai, dyma'r wers fwyaf llwyddiannus y dysgais yn ystod fy PAP, rhan 1, gyda nodiadau fy mentor yn fy nyddlyfr ynghyd a sylwadau gan y plant yn adlewyrchu nid dim ond fy nghynnydd fel darpar athrawes - o ran hyder ac o ran ymarfer, ond hefyd eu mwynhad, gyda nifer yn cyfaddef eu bod nhw eisiau rhagor o wersi yn archwilio'r Oes Fictoria yn y modd yma.

Pleser oedd defnyddio fy angerdd a'm hobi fel teclyn i gynorthwyo dysgu fy mhlant.


Dywed Jeffery a Woods (2009) bod gan athrawon creadigol rheolaeth dros addysgeg eu hun. Maent yn dewis pa ddulliau, a pha gyfuniad o ddulliau, i gyflogi, a phryd. Mae athrawon creadigol hefyd yn gallu creu a manteisio ar gyfleoedd i addysgu'n greadigol wrth iddynt arbenigo mewn manteisio ar yr annisgwyl i hyrwyddo dysgu eu plant a chynnig y cyfleoedd gorau posibl iddyn nhw.

Rwy'n sylweddoli ei bod nid yn unig yn wers hwylus iddynt fod yn rhan ohoni, ond yn wers a agorodd eu meddyliau i ddysgu'n greadigol, rhywbeth mae Fisher (2003) yn datgan sy'n hynod o bwysig. Yn ôl Fisher (2003) mae hyrwyddo meddwl creadigol yn ffordd bwerus o ennyn diddordeb plant yn eu dysgu. Mae plant sy'n cael eu hannog i feddwl yn greadigol yn dangos lefelau uwch o gymhelliant a hunan-barch. Mae creadigrwydd yntau yn eu paratoi am eu gyrfaedd tu hwnt i'r ysgol, gan feistrol'i'r sgiliau angenrheidiol y bydd angen arnynt i wynebu dyfodol ansicr.

Sylweddolais yn gyflym ar ddechrau PAP, pa mor bwysig oedd yr egwyddor yma, yn enwedig o ystyriaeth ein cwricwlwm newydd. Rwy'n deall pwysigrwydd ymdrechu i roi'r ffactorau hyn ar waith, wrth i'm profiad barhau, er mwyn datblygu disgyblion hyderus ac uchelgeisiol yn fy nosbarth, wrth sicrhau'r addysg orau bosibl iddynt. Wrth wneud hyn rwyf yn sicr yn dangos nid yn unig fy natblygiad fel darpar athrawes ond hefyd fy nealltwriaeth o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonof wrth i mi symud ymlaen gyda PAP 2 a hefyd fy ngyrfa, yn ogystal â sut gallaf sicrhau fy mod yn ymwneud a gwthio fy mhlant i gyflawni a bod yn llwyddiannus yn eu gyrfa yn yr ysgol a thu hwnt.

Cyfrif Geiriau: 3,184

Tacsonomeg Bloom



Ffigwr 1: Tacsonomeg Bloom
(Anderson & Krathwohl, 2001)

Cyfeirnodau

Alexander, P.J. 2006. *Towards Dialogic Teaching: Rethinking Classroom Talk*. Efrog, DU: Dialogos.

Anderson, L., & Krathwohl, D. (2001). *A taxonomy for learning, teaching, and assessing :a revision of Bloom's taxonomy of educational objectives*. Efrog Newydd: Longman.

Armstrong, S., & Fukami, C. (2009). *The SAGE Handbook of Management Learning, Education and Development*. Llundain. SAGE.

Ausubel, D., Novak J., & Hanesian, H. (1968). *Educational Psychology: A Cognitive View*. Holt, Rinehart and Winston.

Black, P., & William, D. (1998). *Inside the Black Box: Raising Standards Through Classroom Assessment*. Llundain: King's College.

Bowen, T., & Ellis, L. (2009). *Assessment for Learning*. Oxford University Press.

Cassell, J. (2004). Towards a model of technology and literacy development: Story listening systems. *Journal of Applied Developmental Psychology*, 25, 75-105.

Clarke, S. (2001). *Unlocking formative Assessment: Practical strategies for enhancing pupils' learning in the primary classroom*.

Dewey, J. (1902) *The Child and the Curriculum*. Chicago, IL: University of Chicago Press.

Donaldson, G (2015). *Dyfodol Llwyddiannus Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru. Llywodraeth Cymru*. Ar gael ar lein: <https://gweddill.gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf>. Darllenwyd: 22/12/2019.

Ferrari, A. (2013). *Digcomp: A framework for developing and understanding digital competence in Europe (Technical Report)*. Ar gael ar wefan Publications Office of the European Union: <http://publications.jrc.ec.europa.eu/repository/bitstream/JRC83167/lb-na-26035-Darllenwyd:13/12/19>.

Fisher, R. (2003). Thinking skills, creative thinking' *Junior Education*, May.

Hoodless, P., McCreery, E., Bowen, P., & Bermingham, S. (2009). *Teaching Humanities in Primary Schools* (2il argraffiad). Learning Matters.

Jeffery, B., & Woods, P. (2009). *Creative Learning in the Primary School*. Llundain: Routledge.

Jones, J. (2010). *The role of Assessment for Learning in the management of primary to secondary transition: implications for language teachers*. *The Language Learning Journal*. 38(2). 175-191.

Kerry, T. (2010). *Cross-curricular teaching in the primary school planning and facilitating imaginative lessons*. (argraffiad 1af). Efrog Newydd. Routledge.

Lawton, D. (1997) 'Curriculum theory and a curriculum for the 21st century' yn P. Mortimore and V. Little (eds) *Living Education: essays in honour of John Tomlinson*. Llundain: PCP.

Llywodraeth Cymru.(2010). *Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth*. Ar gael ar lein: <https://hwb.gov.wales/storage/283b9318-dcf7-402d-b39a-67dee70efe18/sut-i-ddatblygu-meddwl-ac-asesu-ar-gyfer-dysgu-yn-yr-ystafell-ddosbarth.pdf>. Darllenwyd: 13/12/19.

Llywodraeth Cymru.(2013). *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Cynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Darllenwyd: 14/12/19. Ar gael ar lein: <https://hwb.gov.wales/storage/c163e330-a978-4523-8ce6-b659af27a51f/cynorthwyo-ysgolion-i-gyflwynor-fframwaith-llythrennedd-a-rhifedd-cenedlaethol.pdf>

Llywodraeth Cymru.(2016). *Darllen ar draws y Cwricwlwm*. Ar gael ar lein: <https://hwb.gov.wales/storage/bb68fa3e-a896-4d00-8aae-705417595cbb/170601-darllen-ar-draws-y-cwricwlwm.pdf> Darllenwyd: 22/12/2019.

Llywodraeth Cymru.(2018). *Rhifedd*. Ar gael ar lein: <https://hwb.gov.wales/storage/80254a3b-8902-464f-8a97-346b220e2b29/180312-rhifedd.pdf>. Darllenwyd: 22/12/2019.

McGregor, D. (2007). *Developing Thinking, Developing Learning: A guide to Thinking Skills in Education*. Open University Press.

Ridgway, J., McCusker, S. & Pead, D. (2004). *Literature review of e -assessment*. Bryste, Lloegr: Futurelab.

Rose, J. (2009). *Independent review of the primary curriculum*. Ar gael ar lein: <https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130323052701/https://www.education.gov.uk/publications/standard/publicationDetail/Page1/DCSF-00499-2009> Darllenwyd: 22/12/2019.

Pound, L., & Lee, T. (2010). *Teaching Mathematics Creatively*. Abingdon. Routledge.

Sadler, R. (1989). Formative assessment and the design of instructional systems, *Instructional Science*, 18, 119 – 44.

Worthington, M. and Carruthers, E. (2006). *Children's Mathematics: Making Marks, Making Meaning*. Llundain: Sage